

**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a'r  
Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth  
mewn Iechyd a Gofal (NICE)**

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) .....	1
Hanes adolygu a chymeradwyo .....	3
Cyflwyniad.....	3
Rolau a chyfrifoldebau.....	4
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru .....	4
Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) .....	5
Egwyddorion cydweithredu .....	5
Meysydd Gwaith a Blaenoriaethau ar y Cyd .....	6
Cyfnewid Gwybodaeth.....	6
Y Cyfryngau a Chyhoeddiadau .....	7
Llywodraethu.....	7
Hyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'i adolygu .....	8
Atodiad A – Gweithio mewn Partneriaeth.....	9
Atodiad B – Manylion Cyswllt .....	10

## Hanes adolygu a chymeradwyo

<b>Fersiwn</b>	1.0
<b>Dyddiad y'i crëwyd</b>	05/05/2020
<b>Awduron</b>	AGIC: Joseph Wilton NICE: Julie Vile
<b>Dyddiad y'i cytunwyd</b>	14/05/2020
<b>Cytunwyd yn ffurfiol gan</b>	AGIC: Alun Jones NICE: Yr Athro Gillian Leng
<b>Dyddiad adolygu</b>	Mai 2020

## Cyflwyniad

1. Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw pennu fframwaith er mwyn cefnogi'r gydberthynas waith rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).
2. Mae'r gydberthynas waith hon yn rhan o'r gwaith o gynnal system reoleiddio effeithiol ar gyfer iechyd yng Nghymru, sy'n hybu diogelwch cleifion a gofal o ansawdd uchel.
3. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ond yn berthnasol i'r gwaith o reoleiddio gofal iechyd yng Nghymru. Nid yw'n drech na chyfrifoldebau na swyddogaethau statudol AGIC na NICE. Nid yw'n creu hawliau na rhwymedigaethau cyfreithiol rwymol; nac yn golygu y caiff unrhyw gyfrifoldebau eu trosglwyddo o'r naill i'r llall, nac y caiff unrhyw swyddogaethau statudol nac atebolrwydd eu rhannu.
4. Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw diffinio'r cytundeb ar y cyd rhwng y ddau sefydliad a disgrifio'r ffordd y bydd AGIC a NICE yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn cefnogi'r gwaith o wella ansawdd gofal. Mae'n cwmpasu'r canllawiau, y cyngor a'r cynhyrchion eraill a ddarperir gan NICE ar gyfer y system gofal iechyd, y cymorth a ddarperir gan AGIC o ran rhoi sicrwydd a monitro'r gwaith o roi canllawiau NICE ar waith, safonau ac arwyddion ansawdd, a'r cymorth a roddir gan NICE i AGIC er mwyn i AGIC gyflawni ei rôl o ran rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd.

5. Fel rhan o'r gweithgareddau yr ymgwymerir â nhw o ganlyniad i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, gellir sefydlu cytundebau eraill (er enghraifft, cytundebau rhannu gwybodaeth, neu brotocolau cydweithio). Bydd y cyfryw cytundebau yn bodoli ar wahân i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

## Rolau a chyfrifoldebau

### Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

6. AGIC yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac, er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae protocolau wedi'u sefydlu i ddiogelu ei hymreolaeth weithredol. Daw prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC o'r ddeddfwriaeth ganlynol:
  - Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003;
  - Deddf Safonau Gofal 2000 (a rheoliadau cysylltiedig);
  - Deddf Iechyd Meddwl 1983 a 2007, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010;
  - Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011;
  - Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwyllo Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008; a
  - Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017 a Rheoliadau Diwygio 2018.
7. Nod AGIC yw:
  - Rhoi sicrwydd: Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal
  - Hybu gwelliant: Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da
  - Dylanwadu ar bolisi a safonau: Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.
8. Rôl graidd AGIC yw adolygu ac arolygu sefydliadau gofal iechyd y GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cleifion, y cyhoedd ac eraill yn cael gofal diogel ac effeithiol sy'n cyrraedd safonau cydnabyddedig. Caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisiâu, canllawiau a rheoliadau cyhoeddedig. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau i wasanaethau a'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn cyflawni hyn. Os bydd angen, bydd AGIC yn cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig, lle yr ymddengys fod methiannau systematig o ran y ffordd y caiff gwasanaethau gofal iechyd eu darparu, er mwyn sicrhau y caiff gwelliannau eu gwneud ac y caiff gwersi eu dysgu'n gyflym.
9. Mae AGIC hefyd yn gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 sy'n llywodraethu'r gwaith o reoleiddio sefydliadau o'r fath.

## Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)

10. Corff cyhoeddus anadrannol gweithredol yn Lloegr yw NICE, sy'n gweithredu fel rhan o'r system iechyd, iechyd y cyhoedd a gofal cymdeithasol ehangach. Caiff ei rôl a'i gyfrifoldebau yng Nghymru eu diffinio'n bennaf drwy gytundeb ar lefel y gwasanaeth â Llywodraeth Cymru o dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (2006). Mae'r cytundeb diweddaraf, a gafodd ei gymeradwyo yn 2018, yn rhoi statws cyfartal i holl ganllawiau NICE, gan gynnwys canllawiau ar iechyd, iechyd y cyhoedd a gofal cymdeithasol, yng Nghymru ag sydd ganddynt yn Lloegr, er y gall fod angen i ddefnyddwyr Cymru ystyried y fframwaith deddfwriaethol gwahanol sy'n gymwys ar adegau.
11. Mae NICE yn darparu canllawiau i gefnogi ymarferwyr a rheolwyr yn y gwaith o sicrhau bod y gofal a gaiff ei gomisiynu a'i roi o'r ansawdd gorau posibl, a'i fod yn cynnig y gwerth gorau am arian. Nid yw canllawiau NICE yn orfodol, ac eithrio arfarniadau NICE o dechnoleg, lle mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG yng Nghymru gydymffurfio ag argymhellion yr arfarniadau technoleg o fewn 60 diwrnod i'r Penderfyniad Arfarnu Terfynol.
12. Mae NICE hefyd yn cefnogi'r gwaith o fabwysiadu canllawiau a safonau ansawdd a'u rhoi ar waith drwy raglen bwrpasol sy'n cynnwys darparu adnoddau ar-lein, dylanwadu yn ehangach a gweithio ar y cyd. Mae NICE yn defnyddio ei ganllawiau, yn ogystal â chanllawiau wedi'u hachredu, fel rhan o raglen datblygu dangosyddion, i ddatblygu dangosyddion i gefnogi'r gwaith o fesur ym maes ymarfer cyffredinol (gan gynnwys y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau), a dangosyddion i fesur gofal a chanlyniadau.
13. Mae NICE hefyd yn cynhyrchu amrywiaeth o ddeunyddiau eraill, gan gynnwys crynodebau o dystiolaeth mewn perthynas â meddyginiaethau newydd, canllawiau ar arferion gorau o ran rhagnodi, a phorth tystiolaeth ar-lein ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol (Gwasanaethau Tystiolaeth NICE) sy'n cynnwys llyfrau a chyfnodolion a gaiff eu prynu ar ran y GIG. NICE sy'n dal y contract ar gyfer Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain (BNF), ac mae'n darparu mynediad ar-lein at yr adnodd hwn drwy wefan NICE. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth ar gyffuriau newydd sydd wrthi'n cael eu datblygu drwy gronfa ddata gyfyngedig ar gyfer y sawl sy'n sganio'r gorwel (UK Pharmascan).

## Egwyddorion cydweithredu

14. Mae AGIC a NICE yn cydnabod eu priod gyfrifoldebau a swyddogaethau statudol ac anstatudol, a byddant yn ystyried y rhain wrth gydweithio â'i gilydd.
15. Bydd y gydberthynas waith rhwng AGIC a NICE yn gefnogol i'r naill ochr a'r llall, a chaiff ei chydabod ar lefelau uchaf y ddau sefydliad, gydag arweinyddiaeth amlwg, llinellau atebolrwydd clir a dull gweithredu corfforaethol cyson.
16. Wrth roi'r cytundeb hwn ar waith, bwriad AGIC a NICE yw y caiff eu cydberthynas waith ei nodweddu gan yr egwyddorion canlynol:

- yr angen i wneud penderfyniadau sy'n diogelu ac yn hybu gofal iechyd o ansawdd uchel ac sy'n hybu iechyd, diogelwch a lles cleifion;
- bod yn gwbl agored a sicrhau tryloywder rhwng y ddau sefydliad o ran pryd yr ystyrir bod cydweithredu yn angenrheidiol neu'n briodol a phryd nad ystyrir bod cydweithredu yn angenrheidiol nac yn briodol;
- parch at statws annibynnol y naill sefydliad a'r llall;
- yr angen i ddefnyddio adnoddau a gwybodaeth yn effeithiol ac yn effeithlon drwy gydlynw a rhannu gwybodaeth yn briodol;
- yr angen i fod yn effeithlon, gyda phrosesau busnes a gynlluniwyd i gynhyrchu allbynnau'n gyflym, hwyluso cyfathrebu cyflym rhwng y partneriaid a sicrhau bod y partneriaeth yn gallu newid a datblygu
- yr angen i gynnal hyder y cyhoedd yn y ddau sefydliad; ac
- ymrwymiad i fynd i'r afael ag unrhyw achos o orgyffwrdd neu fylchau a nodwyd yn y fframwaith rheoleiddio a chyfrifoldebau rheoleiddio, er mwyn hybu'r gwaith o ddarparu gofal o ansawdd uchel.

17. Mae AGIC a NICE hefyd yn ymrwymedig i fabwysiadu dulliau rheoleiddio tryloyw, atebol, cymesur a chyson sydd wedi'u targedu (sef egwyddorion gwell rheoleiddio).

## **Meysydd Gwaith a Blaenoriaethau ar y Cyd**

18. Mae sawl maes gwaith lle mae angen i AGIC a NICE weithio'n agos gyda'u gilydd er mwyn gefnogi gofal iechyd o ansawdd uchel. Y meysydd a restrir isod yw meysydd craidd y gwaith parhaus y tybir y byddant yn parhau, oni cytunir fel arall (gweler yr adran isod ar gytuno ar flaenoriaethau).

## **Cyfnewid Gwybodaeth**

19. Bydd AGIC a NICE yn gweithio gyda'u gilydd i sicrhau, lle y bo'n briodol, bod canllawiau NICE a safonau ansawdd NICE a methodoleg arolygu AGIC yn gyson â'i gilydd, er mwyn sicrhau bod safonau gofal yn uchelgeisiol ac yn gyflawnadwy. Bydd cydweithio rhwng AGIC a NICE yn aml yn gofyn am gyfnewid gwybodaeth. Bydd disgwyl cyfnewid gwybodaeth yn yr achosion canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- mae AGIC neu NICE yn nodi pryderon neu gyfleoedd i gydweithredu ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd a lles y cyhoedd, yn benodol mewn perthynas â safonau ansawdd gofal a dilyn egwyddorion arferion gorau
- byddai datrys pryder yn cael budd o ymateb amlasiantaeth sydd wedi'i gydlynw

20. Mewn achosion o'r fath, bydd pob achos o gyfnewid gwybodaeth yn gyfreithlon ac yn gymesur, a rhennir y wybodaeth yn gyfrinachol â'r cyswllt a enwir yn y sefydliad arall cyn gynted â phosibl. Caiff y manylion cyswllt yn Atodiad B eu defnyddio i godi a rhannu pryderon. Bydd y sefydliad sy'n cael y wybodaeth yn rhoi adborth yn nodi unrhyw gamau a gymerwyd i wella'r ffordd y mae AGIC a NICE yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn gwella ansawdd y gofal.

21. Bydd yr holl drefniadau o ran cydweithio a chyfnewid gwybodaeth a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, ac unrhyw brotocol gweithio ar y cyd a all gael ei ddatblygu, yn ystyried ac yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003, adran 76 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, Deddf Safonau Gofal 2000 a holl ddeddfwriaeth AGIC a NICE sy'n ymwneud â'r materion hyn, a'u Codau Ymarfer, fframweithiau neu bolisiâu priodol eraill sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol gyfrinachol a materion gwybodaeth.
22. Mae AGIC a NICE yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Os bydd y naill sefydliad yn cael cais am wybodaeth a ddeilliodd o'r llall, bydd y sefydliad sy'n cael y cais yn ei drafod â'r llall cyn ymateb.
23. Pan fydd AGIC neu NICE yn nodi pryder difrifol, y mae'n credu ei fod yn rhan o gylch gwaith y llall, bydd yn rhannu'r pryder a'r wybodaeth berthnasol ag unigolyn penodol sydd â chyfrifoldeb perthnasol yn y sefydliad arall yn brydlon.

### **Y Cyfryngau a Chyhoeddiadau**

24. Bydd AGIC a NICE yn ceisio rhoi digon o rybudd a gwybodaeth i'w gilydd am unrhyw gyhoeddiadau a gynllunnir i'r cyhoedd ar faterion sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad, gan gynnwys rhannu cyhoeddiadau a chynigion drafft.
25. Mae AGIC a NICE yn ymrwmo i weithio gyda'i gilydd, lle y bo'n briodol, i gynhyrchu datganiadau neu ohebiaeth ar y cyd sy'n tynnu sylw at gydweithredu neu weithgareddau sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad.
26. Bydd AGIC a NICE yn parchu cyfrinachedd unrhyw ddogfennau a rennir cyn iddynt gael eu cyhoeddi, ac ni fyddant yn ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n arwain at gyhoeddi cynnwys y dogfennau hynny cyn y dyddiad cyhoeddi a gynlluniwyd.

### **Llywodraethu**

27. Bydd effeithiolrwydd y gydberthynas waith rhwng AGIC a NICE wedi'i gefnogi gan gyswllt rheolaidd ffurfiol neu anffurfiol. Disgrifir y cyswllt hwn, ac unrhyw waith mewn partneriaeth, yn Atodiad A.
28. Dylid cynnal cyfarfodydd rhwng cydweithwyr perthnasol yn y ddau sefydliad i drafod gwybodaeth, polisiâu a materion gweithredol sydd o ddiddordeb i'r ddau sefydliad pan fo'n briodol; o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Ceir manylion cyswllt swyddogion perthnasol ar lefel weithredol y ddau sefydliad yn Atodiad B. Yn y cyfarfod hwn, mae'n bosibl y caiff meysydd penodol ar gyfer cydweithio eu nodi a'u datblygu gan grwpiau gorchwyl a gorffen, sy'n cynnwys aelodau o un o'r sefydliadau neu'r dau.

29. Fel arfer caiff unrhyw anghytundeb rhwng AGIC a NICE ei ddatrys ar lefel waith. Os nad yw hyn yn bosibl, caiff ei ddwyn at sylw rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn Atodiad B, a all ei uwchgyfeirio wedyn, fel y bo'n briodol, o fewn y ddau sefydliad er mwyn sicrhau datrysiad sy'n foddhaol i'r ddau sefydliad. Dylai'r ddau sefydliad anelu at ddatrys unrhyw anghydfod o fewn amser rhesymol.

## Hyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'i adolygu

30. Mae'r ddau sefydliad wedi nodi unigolyn sy'n gyfrifol am y gwaith o reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn Atodiad B. Byddant yn cydgysylltu yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn gyfredol, yn nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg ac yn ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi mewn perthynas â chydberthynas waith y ddau sefydliad.
31. Nid oes cyfyngiad amser i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a bydd yn parhau mewn grym oni fydd angen newid yr egwyddorion a ddisgrifiwyd neu os byddant yn amherthnasol bellach. Caiff y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ei adolygu bob blwyddyn gan reolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn Atodiad B, ond gellir hefyd ei adolygu ar fyrder ar unrhyw adeg ar gais y naill sefydliad neu'r llall.

## Llofnodwyd



**Alun Jones**

Prif Weithredwr Dros Dro  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Dyddiad: 07.05.2020



**Yr Athro Gillian Leng**

Prif Weithredwr  
Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth  
mewn Iechyd a Gofal

Dyddiad: 14.05.2020



## **Atodiad A – Gweithio mewn Partneriaeth**

Er bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi egwyddor arweiniol rhannu gwybodaeth a digwyddiadau, mae rhai gweithgareddau penodol hefyd a fydd yn hwyluso'r bartneriaeth rhwng AGIC a NICE.

### **Ymgysylltu Rheolaidd**

Bydd AGIC a NICE yn ceisio cyfarfod yn rheolaidd er mwyn rhannu canlyniadau arolygu, canlyniadau adolygiadau a datblygiadau o ran methodoleg; o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Diben yr ymgysylltu hwn fydd galluogi AGIC i roi gwybod i NICE am unrhyw feysydd a lleoliadau a allai gael budd o sylw mwy penodol gan NICE. Diben arall fydd helpu AGIC i ddatblygu adnoddau arolygu ac adolygu, a sicrhau eu bod yn seiliedig ar yr arferion gorau.

Yn ogystal â'r meysydd gwaith craidd parhaus a ddisgrifir uchod, bydd NICE ac AGIC hefyd yn cynnal trafodaeth flynyddol fel rhan o'r cylch cynllunio busnes er mwyn ystyried blaenoriaethau. Caiff meysydd gwaith newydd eu hystyried, a ph'un a yw'r adnoddau ar gael i'w datblygu.

Bydd y ddau sefydliad yn nodi ac yn rhannu datblygiadau a all gael effaith ar feysydd cydweithio presennol fel y rhestrir uchod. Fel rhan o'r gwaith monitro a'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu a ddisgrifir isod, bydd y ddau sefydliad hefyd yn trafod ac yn nodi meysydd newydd posibl a gyfer cydweithio a all ddeillio o fentrau cysylltiedig.

Bydd NICE ac AGIC yn ystyried gwaith cyrff hyd braich a sefydliadau cenedlaethol allweddol eraill wrth bennu blaenoriaethau a meysydd ar gyfer cydweithio.

### **Hyfforddiant a Chymorth**

Gall NICE, pan fo angen, roi hyfforddiant i arolygwyr ac adolygwyr AGIC er mwyn eu hysbysu am waith NICE a'r hyn y dylent ei ystyried wrth gynnal arolygiadau. Caiff yr hyfforddiant hwn ei gynnal gan AGIC a'i hwyluso gan NICE, a fydd yn darparu'r cynnwys a'r siaradwr.

Yn ei dro, gall AGIC ddarparu hyfforddiant a chymorth i unrhyw aelodau o staff NICE sydd â diddordeb yn AGIC a'r fethodoleg a ddefnyddir. Mae AGIC yn fodlon trafod a disgrifio'r wahanol fethodolegau a ddefnyddir gan AGIC wrth gynnal arolygiadau, a'r dystiolaeth a'r wybodaeth a gesglir gan leoliadau.

### **Cefnogi'r gwaith o ddatblygu canllawiau a safonau ansawdd NICE**

Mae proses NICE ar gyfer datblygu canllawiau yn cynnwys nifer o gamau o ran ymgynghori â rhanddeiliaid (gweithdy rhanddeiliaid, ymgynghoriadau ar gwmpas a chanllawiau). Mae AGIC yn gymwys i gofrestru fel rhanddeiliad, ac yn cael cynnig sylwadau ar y camau hyn fel y bo'n briodol.

Mae proses NICE ar gyfer datblygu safonau ansawdd yn cynnwys dau gam ymgynghori. Lle y bo'n briodol, bydd AGIC yn cynnig sylwadau ar y cam trosolwg o'r pwnc ac ar safonau ansawdd drafft, gan ddangos cysylltiadau posibl â safonau gofal hanfodol.

Rhoddir sylw arbennig er mwyn sicrhau bod NICE ac AGIC yn ymgysylltu â'i gilydd wrth ddatblygu canllawiau a safonau ar gyfer gofal iechyd, a bod canfyddiadau AGIC yn

Ilywio rhaglen gofal iechyd NICE. Bydd AGIC a NICE yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau cysondeb, lle y bo'n briodol.

## Atodiad B – Manylion Cyswllt

<b>Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru</b>	<b>Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)</b>
Llywodraeth Cymru Parc Busnes Rhydycar Merthyr Tudful CF48 1UZ	Level 1A City Tower Piccadilly Plaza Manceinion M1 4BT
Ffôn: 0300 062 8163	Ffôn: 0300 323 0140

Mae enwau cyswllt AGIC a NICE fel a ganlyn:

<b>Prif Swyddogion Gweithredol</b>	
<b>Alun Jones</b> <i>Prif Weithredwr Dros Dro</i> <a href="mailto:alun.jones39@Gov.Wales">alun.jones39@Gov.Wales</a>	<b>Yr Athro Gillian Leng</b> <i>Prif Weithredwr</i> <a href="mailto:gillian.leng@nice.org.uk">gillian.leng@nice.org.uk</a>
<b>Rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth</b>	
<b>Joseph Wilton</b> <i>Pennaeth Partneriaethau, Gwybodaeth a Methodoleg</i> <a href="mailto:joseph.wilton@gov.wales">joseph.wilton@gov.wales</a> Ffôn: 0300 025 2663	<b>Julie Vile</b> <i>Hwylusydd Gweithredu</i> <a href="mailto:julie.vile@nice.org.uk">julie.vile@nice.org.uk</a> Ffôn: 07973 970466
<b>Mewnflwch Pryderon</b>	
<a href="mailto:concerns.hiw@gov.wales">concerns.hiw@gov.wales</a> Ffôn: 0300 062 8163	